Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir

Ebrill 2019

Cefndir

Y Bil

Trosolwg

1. Cafodd y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir[1] (y Bil) ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Mawrth 2018 ac fe'i noddir gan David Warburton AS (h.y. mae'n Fil Aelod Preifat).

2. Cafodd y Bil hwn ei drafod a'i ddiwygio[2] mewn Pwyllgor Bil Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mawrth 2019. Cynhaliwyd y cyfnod adrodd a'r trydydd darlleniad ar 15 Mawrth 2019. Cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf[3] yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mawrth 2019. Nid yw'r ail ddarlleniad wedi'i drefnu eto.

3. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil (fel y'u cyflwynwyd) yn nodi:

> "The Bill contains two measures. The First will provide the Secretary of State for Defra with powers to establish new bodies known as 'Rivers Authorities'. The second will address a current obstacle to the raising of

[1] Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir 2017-19 Bil 172

[2] Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus, 2017-19 Bil 354

[3] Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir Bil HL 169

> the expenses of certain internal drainage boards under the Land Drainage Act 1991."[4]

4. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil (fel y'u cyflwynwyd) yn nodi:

> "[Internal drainage boards (IDBs)] are public bodies which are established or modified via a statutory process under the Land Drainage Act 1991 (LDA). IDBs are mainly funded locally through drainage rates paid directly by agricultural landowners and special levies issued to district or unitary authorities The proportion of drainage rates and special levies paid to each IDB is dependent upon the amount of agricultural and urban land in that IDB's district."[5]

5. Mae cymal 1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu awdurdodau afonydd, yn Lloegr, drwy fewnosod adran 21A newydd i 21J yn y *Ddeddf Llifogydd a Rheoli Dŵr 2010*.

6. Mae cymal 2 yn diwygio *Deddf Draenio Tir 1991* (Deddf 1991) i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n pennu methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth tir arall mewn ardal ddraenio fewnol.

7. Mae cymal 3 yn mewnosod tair adran newydd yn Neddf 1991 i alluogi rhannu gwybodaeth.

8. Mae cymal 4 yn mewnosod adran 41A newydd yn Neddf 1991 sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau. Gall rheoliadau o'r fath bennu methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth eiddo trethadwy (tir ac adeiladau amaethyddol) mewn ardal ddraenio fewnol.

9. Mae cymal 5 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud diwygiadau canlyniadol trwy gyfrwng rheoliadau. Gall y rhain ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad. Mae cymal 5(6) yn cynnwys Bil neu Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn benodol (neu offerynnau a wneir o dan ddeddfwriaeth Gymreig o'r fath) yn y diffiniad o ddeddfiad.

10. Mae cymal 6 yn darparu bod y Bil yn ymestyn i Gymru a Lloegr, yn amodol ar ddarpariaeth yn 6(2) a (3). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ddiwygiad a wneir gan Atodlen 2 yr un graddau â'r ddarpariaeth sy'n cael ei diwygio, a bod cymalau 5 i 8 yn ymestyn i Gymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

---

[4] Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir 2017-19 Bil 172: Nodiadau Esboniadol, Mawrth 2019

[5] Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir 2017-19 Bil 172: Nodiadau Esboniadol, Mawrth 2019

11. Mae cymal 7 yn nodi'r trefniadau ar gyfer dechrau'r darpariaethau yn y Bil, tra bod cymal 8 yn darparu ar gyfer teitl byr y Bil.

12. Mae'r nodiadau esboniadol i'r Bil, fel y'u cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mawrth 2019, yn dangos bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â chymalau 2 i 8 o'r Bil.[6]

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

13. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) oherwydd bod darpariaethau yn y Bil yn addasu neu'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

14. Ar 15 Mawrth 2019, gosododd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni, a Materion Gwledig Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil[7] gerbron y Cynulliad Cenedlaethol

15. Ar 19 Mawrth 2019, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor hwn, a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i'w drafod. Pennodd y Pwyllgor Busnes 25 Ebrill 2019[8] fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad arno.

16. Mae paragraffau 13 i 15 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o ba ddarpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad arnynt, sef cymalau 2 a 4.[9]

17. Mae paragraffau 16 i 18 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru pam mae cynnwys darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil yn briodol:

> "This issues is present across the IDDs and IDBs in England and Wales. Any legislative solution would require primary legislation, and taking these provisions forward in this UK Private Member's Bill provides an opportunity to remedy this issue in a consistent manner in England and Wales.

[6] Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir Bil HL 169: Nodiadau Esboniadol, Mawrth 2019

[7] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir, Mawrth 2019

[8] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir, Mawrth 2019

[9] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir, Mawrth 2019

> An amendment to the Land drainage Act 1991 was introduced through section 83 of the Environment Act 2016. However, those provisions only grant powers to Welsh Ministers to revise the methodology for non-agricultural land, not for agricultural land. We now need to address this issue for both non agricultural and agricultural land equally and this legislation is the means by which to do this.
>
> These changes are important as without them the IDB, which in Wales is NRW, is unable to collect the correct income."[10]

Ystyriaeth y Pwyllgor

18. Gwnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil yn ein cyfarfod ar 1 Ebrill 2019.[11]

19. Ar 18 Ebrill 2019, ysgrifennodd y Gweiniog atom i ddweud ei bod yn bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig, a fyddai'n ceisio cydsyniad ar gyfer cymalau 3 a 5, yn ogystal â chymalau 2 a 4.[12]

Ein barn

20. Nodwn resymau Llywodraeth Cymru ynghylch pam ei bod o'r farn bod gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil yn briodol.

21. Nodwn fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cymalau 2, 3, 4 a 5. Nodwn ymhellach mai barn Llywodraeth y DU yw bod angen cydsyniad mewn perthynas â chymalau 2 i 8 o'r Bil. Rydym yn cytuno â barn Llywodraeth y DU. Yn ein barn ni, mae cymalau 2 i 8 yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol, i'r graddau eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn unol ag adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

22. O ran cymal 5, nodwn fod isadran (6) yn caniatáu diwygio Biliau neu Ddeddfau'r Cynulliad Cenedlaethol drwy reoliadau. Nid yw'n eglur pam na chyfeiriwyd at y ffaith hon yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

---

[10] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Awdurdodau Afonydd a Draenio Tir, Mawrth 2019

[11] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol 1 Ebrill 2019

[12] Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 18 Ebrill 2019

Byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a fyddai rheoliadau o'r fath yn cynnwys y broses Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A.

23. At hynny, nid yw'n glir pam nad oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun, a byddem yn croesawu eglurhad ar y pwynt hwn.